DYDDIEDIG 03 GORFFENNAF 2025

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD - CEI CONNAH) (DIWYGIAD RHIF 2) GORCHYMYN 2025


Katie Wilby,

Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),

Depo Alltami,

Ffordd Yr Wyddgrug,

Alltami,

Yr Wyddgrug,

CH7 6LG

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD - CEI CONNAH)
(DIWYGIAD RHIF 2) GORCHYMYN 2025**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adrannau 32, 33, 34, 35, 124 (1) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

## Enwi a Chychwyn

1. Mae'r Gorchymyn y atodol i Orchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah) (Diwygiad) 2018 ("y Gorchymyn Gwreiddiol") a Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah (Diwygiad Rhif 1) 2022 sydd yn parhau mewn grym ac effaith yn llawn, yn amodol ar yr hyn a nodir yma.

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

3. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Gorffennaf 2025 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio oddi ar y Stryd – Cei Connah) (Diwygiad) (Rhif 2) 2025.

4. Mae diffiniadau wedi'u nodi yn y 'Gorchymyn Gwreiddiol' ac yn Gorchymyn Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah) (Diwygiad Rhif 1) 2022.

5. Diwygir y Gorchymyn Gwreiddiol drwy hyn gan gynnwys y canlynol:

6. Caiff Atodlen 2 yn y Gorchymyn Gwreiddiol ei dileu a'i disodli ag Atodlen 2B.

7. Caiff Atodlen 2A Gorchymyn Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd

Cei Connah) (Diwygiad Rhif 1) 2022 ei dileu a'i disodli ag Atodlen 2B.

8. Caiff unrhyw gyfeiriad at Atodlen 2 yn y Gorchymyn Gwreiddiol ei dileu a'i disodli ag Atodlen 2B.

9. Caiff unrhyw gyfeiriad at Atodlen 2A yng Gorchymyn Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd - Cei Connah) (Diwygiad Rhif 1) 2022 ei dileu a'i disodli ag Atodlen 2B.

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
ar 03 Gorffennaf 2025 )
yng ngŵydd:- )

**Y CADEIRYDD**

**~~RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL~~**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

**~~UWCH GYFREITHIWR~~**

# ATODLEN 2B

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 | Colofn 7 | Colofn 8 | Colofn 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth y cerbyd** | **Safle Lle y Gall Cerbyd Aros** | **Diwrnodau ac oriau lle gellir codi tâl yn y Lleoedd Parcio** | **Dyddiau ac oriau gweithredol** | **Uchafswm cyfnod y gall cerbydau aros** | **Graddfa Prisiau** | **Math o Drwydded** |
| Maude Street, Cei Connah, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 1 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos, Trwyddedau Parcio | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:00 tan 15:00 | Pob Dydd Bob Awr | Trwy'r Dydd | 80c am hyd at 1.5 awr<br>£1.00 am hyd at 2.5 awr<br>£2.00 am hyd at 7 awr<br><br>Trwydded breswylwyr £30 y flwyddyn<br>Trwydded flynyddol £400 y flwyddyn<br>Trwydded staff £48 y flwyddyn | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbyd Trydan Llain barcio gwefru | Cerbyd Trydan Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Pob Dydd Bob Awr | 3 awr heb ddychwelyd o fewn 3 awr, dydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17:00 tan 08:00 dim cyfyngiad | Parcio am Ddim | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Stryd Fawr Arhosiad Byr, Cei Connah, fel a ddangosir gan y llinell glas ar Gynllun 2 ynghlwm â'r Gorchymyn hwn | Talu ac Arddangos, | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:00 tan 15:00 | Pob Dydd Bob Awr | 2.5 Awr a Dim Dychwelyd o Fewn 1 Awr | 80c am hyd at 1.5 awr<br>£1.00 am hyd at 2.5 awr<br><br>Trwydded breswylwyr £30 y flwyddyn | |
| | Cerbyd Trydan Llain barcio gwefru | Cerbyd Trydan Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Pob Dydd Bob Awr | 3 awr heb ddychwelyd o fewn 3 awr, dydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17:00 tan 08:00 dim cyfyngiad | Parcio am Ddim | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Stryd Fawr Arhosiad Hir, Cei Connah, fel a ddangosir gan y llinell goch ar Gynllun 2 ynghlwm â'r Gorchymyn hwn | Talu ac Arddangos, Trwyddedau Parcio | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:00 tan 15:00 | Pob Dydd Bob Awr | Trwy'r Dydd | 80c am hyd at 1.5 awr<br>£1.00 am hyd at 2.5 awr<br>£2.00 am hyd at 7 awr<br><br>Trwydded breswylwyr £30 y flwyddyn<br>Trwydded flynyddol £48 y flwyddyn<br>Trwydded staff £48 y flwyddyn | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbyd Trydan Llain barcio gwefru | Cerbyd Trydan Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Pob Dydd Bob Awr | 3 awr heb ddychwelyd o fewn 3 awr, dydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17:00 tan 08:00 dim cyfyngiad | Parcio am Ddim | |